# Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar draws y cymoedd – Papur Trafod

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd yn ymrwymiad trawslywodraethol sydd â'r nod o wella canlyniadau yng Nghymoedd y De. Cynhelir cyfarfod nesaf y tasglu ar 2 Chwefror. Yn y cyfarfod hwn, bydd y tasglu'n canolbwyntio ar wella gwasanaethau cyhoeddus.

1.2 Y papur hwn fydd sail y trafodaethau yng nghyfarfod nesaf y tasglu. Mae'n dwyn ynghyd gamau gweithredu ac ymrwymiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y cymoedd. At ddibenion y papur hwn, mae'r sylw ar Dai, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (ysgolion).

1.3 Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r "cynnig" ar gyfer y cymoedd, sydd i'w weld yn adran 3 isod. Mae Atodiadau 1-3 yn rhoi rhagor o wybodaeth gefndir am bob un o'r meysydd polisi.

## 2. Nod

2.1 Mae'r adrannau isod yn amlinellu'r blaenoriaethau ac ymrwymiadau allweddol ym meysydd addysg (ysgolion), tai ac iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Y nod yw gweld sut gall y meysydd hyn helpu i sicrhau a gwella canlyniadau ar draws y cymoedd.

2.2. Bydd disgwyl i aelodau'r Bwrdd ystyried cwmpas y cynigion. Bydd hyn yn cynnwys llywio nifer o gwestiynau allweddol a fydd yn cael eu cynnwys yn y papur ar gyfer aelodau'r tasglu – gyda'r nod o roi ffocws i'w trafodaethau yn y cyfarfod ar 2 Chwefror.

## 3. Gwella gwasanaethau cyhoeddus – Cynnig ar gyfer y cymoedd

Mae'r adrannau isod yn amlinellu'r "cynigion" penodol ar gyfer y cymoedd. Gellir gweld y papurau llawn sydd wedi'u paratoi gan swyddogion adrannol yn Atodiadau 1-3.

### <u>3.1 Y Cynnig Tai</u>

Rhagwelir y bydd mwy na £1.5 biliwn yn cael ei fuddsoddi mewn adeiladu tai, gwella cartrefi ac mewn cynlluniau adnewyddu dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn adeiladu ar y buddsoddiad sylweddol sydd eisoes yn cael ei wneud mewn rhaglenni yn ardaloedd y Cymoedd. Er mwyn elwa i'r eithaf ar y buddsoddiad, bydd angen cynllunio rhanbarthol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Y 'cynnig' yw:

- Targedu'r gwaith o adeiladu tai newydd, gan ddefnyddio modelau tai arloesol lle bynnag y bo'n bosibl, mewn ardaloedd lleol lle mae angen am dai o wahanol fathau o ddeiliadaeth i adlewyrchu'r angen lleol.

- Targedu tir ar gyfer tai er mwyn sbarduno buddsoddiad mewn ardaloedd allweddol fel safleoedd yn ardaloedd y Metro a'r Ddinas-Ranbarth gan ddarparu tai a deiliadaethau o bob math.

- Cynorthwyo busnesau a sefydliadau lleol newydd yn y cymoedd drwy ganolbwyntio ar dargedu atebion yn seiliedig ar dai fforddiadwy ar gyfer gweithwyr allweddol lle mae angen am dai.

- Edrych ar opsiynau newydd cost isel a hyblyg i letya pobl ifanc yn y cymoedd yn sgil diwygiadau lles, sy'n gost isel ac yn hyblyg, yn cynnwys modelau tai arloesol.

- Ystyried archwilio model cydberchenogaeth groes ar gyfer perchenogion tai er mwyn gallu atgyweirio eiddo lle mae angen.

- Rhannu llwyddiant gallu'r sector tai i sicrhau budd i'r gymuned drwy gontractau caffael a pharhau i greu buddsoddiad, swyddi a chyfleoedd hyfforddi yn ardaloedd y cymoedd yn cynnwys drwy dwf gwyrdd a mentrau cymdeithasol.

- Ar sail data o'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai, edrych ar y buddsoddiad sydd ei angen i wella cartrefi pobl a sut gall y gwaith hwn nid yn unig greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi ond hefyd fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â thlodi tanwydd, newid hinsawdd, allyriadau carbon a demograffeg sy'n newid.

- Parhau ag adfywio a arweinir gan dai fel elfen o adfywio ehangach sy'n targedu stadau tai cymdeithasol (rhaglen SATC a Mwy ac annog deiliadaeth gymysg) ochr yn ochr â thrawsnewid ehangach mewn ardaloedd annedd allweddol.

- Galluogi gwaith ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol i gynorthwyo i atal ACE ar stadau tai cymdeithasol difreintiedig allweddol gan gynnwys edrych ar ddatblygu parthau plant.

- Cynnig deiliadaeth gymysg – manteisio ar y cynnyrch rhentu i brynu newydd – gan alluogi mwy o bobl i fod yn berchen ar eu cartref yn ogystal â modelau rhannu perchnogaeth.

- Tai, iechyd a gofal cymdeithasol – gwneud y defnydd gorau posibl o asedau iechyd – tir ac adeiladau i gynorthwyo gydag anghenion tai.

- Cronfa datblygu eiddo – cynorthwyo BBaChau yn y Cymoedd wrth adeiladu tai. Ystyried modelau hunan-adeiladu.

## 3.2 Y Cynnig Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

DRAFT

Er mwyn ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o randdeiliaid o bob rhan o'r maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer 27 Ionawr 2017. Diben y gweithdy hwn fydd ystyried sut gall elfennau cyfredol a newydd o'r ddarpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol helpu i gyfrannu at newid go iawn yn y canlyniadau ar gyfer pobl y Cymoedd. Yn y gweithdy byddwn yn ceisio canfod dulliau gweithredu a all gyfrannu at fynd i'r afael â phenderfynyddion amddifadedd economaidd, fel rôl iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel cyflogwyr neu wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, yn ogystal â'r rheini sydd â'r potensial i arwain at well ddarpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ddiwallu anghenion cymunedau'r Cymoedd. Ar yr un pryd, bydd angen cydnabod effaith sectorau eraill ar iechyd a lles. Er enghraifft, bydd hi'n bwysig ystyried hyd a lled swyddi tâl isel yn y Cymoedd, a'r cysylltedd a seilwaith trafnidiaeth gwael yn y Cymoedd, yn ogystal â rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig sy'n atal mynediad i swyddi lle mae'r swyddi hynny ar gael.

Ymhlith y themâu posibl i'w hystyried mae:

*Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel cyflogwyr cynaliadwy*

Mae'r GIG, Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau gofal eraill yn gyflogwyr pwysig yn y Cymoedd ac maent yn cyfrannu at ddatblygu'r gweithlu lleol. Er enghraifft, gyda mwy a mwy o henoed, bydd y gwasanaethau hyn angen amrywiaeth eang o staff medrus i ddarparu gofal mewn amrywiaeth o leoliadau, o gartrefi pobl i adnoddau cymunedol a rhanbarthol. Er mwyn i wasanaethau o'r fath fod yn gynaliadwy ac i gynnig gyrfaoedd a chyfleoedd gwaith hirdymor i'r boblogaeth leol, gellir ystyried y posibilrwydd am fwy o gydweithio â'r sector addysg i gynnig cyfleoedd hyfforddi sydd wedi'u teilwra i'r ardal leol, gan awgrymu lle mae'r blaenoriaethau ar gyfer creu cyfleoedd gwaith ar gyfer trigolion y Cymoedd ar yr un pryd â diwallu anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae posibilrwydd hefyd o ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol drwy gael gwell telerau ac amodau, yn cynnwys llwybr gyrfa a phroffesiynoli'r gweithlu i raddau pellach.

*Datblygu'r sylfaen economaidd*

Mae yna sylfaen academaidd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi ennill ei phlwyf mewn prifysgolion 'lleol'. Mae angen rhagor o waith i edrych ar gyfleoedd economaidd newydd gan adeiladu ar y sylfaen hon, megis meithrin cysylltiadau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol academaidd a chwmnïau diwydiannol sy'n cael eu dechrau o'r newydd yn y Cymoedd, gyda'r nod o greu swyddi medrus newydd. Gallai datblygiad o'r fath hefyd ddenu staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o safon uchel i'r ardal. Mae hwn yn faes sy'n cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei gynnal ym Mhrosiect Peilot Cwm Taf i gysylltu ag academia yn ogystal â gwneud defnydd mwy effeithiol o ystâd y sector cyhoeddus.

*Ymgysylltu cryfach ynghylch iechyd a gwasanaethau cymdeithasol*

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gofal iechyd darbodus, sy'n seiliedig ar sicrhau perthynas gyd-gynhyrchiol rhwng dinasyddion a gwasanaethau, blaenoriaeth allweddol yw sut mae mynd ati i ymgysylltu â chymunedau'r Cymoedd yn fwy effeithiol er mwyn mynd

i'r afael â phroblemau a dod o hyd i atebion yn ymwneud â darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n werth nodi y bydd gwybodaeth wedi'i diweddaru sy'n deillio o waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol am anghenion iechyd a lles cymunedau'r Cyhoedd ar gael o'r gwanwyn nesaf. Bydd angen pwyso a mesur y wybodaeth a nodi meysydd ar gyfer ymgysylltu pellach, fel bod unrhyw gynnig iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn adlewyrchu llais y gymuned. Un o nodweddion y gweithdy fydd ystyried sut gall iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ymateb yn well i farn y cyhoedd ar eu hanghenion a chydweithio â'r Trydydd Sector ar y mater hwn.

*Dod â gwasanaethau ac asedau cymunedol at ei gilydd*

Mae yna amrywiaeth o fodelau/dulliau gweithredu yn y DU a thu hwnt sy'n cyfuno gwasanaethau statudol gydag asedau cymunedol. Nod y rhain yw dwyn ynghyd, yn aml mewn canolfan gymunedol, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda gwasanaethau cyngor, darpariaeth y Trydydd Sector, bancio amser, rhagnodi cymdeithasol ac ati o dan arweiniad y gymuned. Mae dulliau o'r fath yn gwerthfawrogi gallu cymunedau, yn manteisio ar eu potensial ac yn rhoi mwy o deimlad o reolaeth i gymunedau. Bydd potensial defnyddio dulliau o'r fath er lles cymunedau'r cyhoedd yn cael ei ystyried.

*Annog Cymunedau Gweithgar*

Bydd symud buddsoddiad o ofal sylfaenol i ofal cymunedol yn ei ystyr ehangaf ac i wasanaethau ataliol yn elfennau allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy at y dyfodol. Mae grymuso a rhoi gwybodaeth i ddinasyddion fel y gallant ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac iechyd a lles eu teuluoedd a'u cymuned, yn hanfodol hefyd er mwyn sicrhau sefyllfa gadarnhaol wrth symud ymlaen. Yn y Cymoedd mae yna nifer i heriau yn ymwneud ag ymddygiad cysylltiedig ag iechyd a dewisiadau ffordd o fyw sydd angen mynd i'r afael â nhw, yn cynnwys gordewdra a diffyg gweithgarwch corfforol. Bydd y posibilrwydd o ganolbwyntio ar waith pellach i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn cael ei ystyried.

## 3.3 Y Cynnig Addysg

Rydym wedi ailwampio Cymwys am Oes (ein cynllun gwella addysg) i adlewyrchu cyflwyno ein hagenda diwygio addysg dros y bum mlynedd nesaf, *Cwricwlwm i Gymru-Cwricwlwm am oes,* Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Rhaglen Lywodraethu newydd, '*Symud Cymru Ymlaen*'. Bydd fersiwn ddiwygiedig o'n cynllun gwella ar gyfer ysgolion yng Nghymru 2016-21 yn cael ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2017 ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol yn cynnwys tystiolaeth gan yr OECD.

Bydd ein cynllun gwella yn cynnwys pum amcan gwella ynghyd â set gydlynol o gamau gweithredu lefel uchel i sbarduno gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Dyma'r pum amcan gwella:

**Llesiant a Thegwch mewn Addysg** - byddwn yn gweithio gyda phob partner allweddol i sicrhau bod pob dysgwr yn barod yn emosiynol ac yn gorfforol i ddysgu. I gyflawni hyn, mae angen cymorth arnynt i oresgyn rhwystrau i ddysgu. Ein nod ddylai fod i sicrhau bod ein dysgwyr fod mewn cyflwr corfforol, cymdeithasol a meddyliol da; i sicrhau hyn, mae angen diwallu anghenion sylfaenol, mae angen synnwyr o ddiben ar unigolion, ac mae angen iddynt deimlo eu bod yn gallu cyflawni nodau personol pwysig a chymryd rhan yn yr ysgol a'r gymdeithas. Ategir hyn gan amodau sy'n cynnwys diogelu effeithiol, perthnasoedd cefnogol mewn bywyd personol ac yn yr ysgol, ysgolion cryf a chynhwysol, iechyd da, diogelwch personol ac amgylchedd iach a deniadol. Dylai'r dyheadau llesiant hyn fod yn berthnasol i bob un o'n dysgwyr. Mae tegwch yn gofyn i ni sicrhau bod y system, ar lefel ysgol, lleol a chenedlaethol, yn ystyried yr heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, a'n bod yn defnyddio'r holl adnoddau sydd gennym o fewn rheswm i leihau effaith yr heriau hynny.

**Y Cwricwlwm ac Asesu** – rydym ni eisoes yn llunio cwricwlwm sy'n seiliedig ar y Pedwar Diben a ddisgrifir yn Dyfodol Llwyddiannus, gyda ffocws clir ar asesu ar gyfer dysgu i gefnogi pob dysgwr a chymwysterau a fydd yn eu galluogi i fod yn uchelgeisiol i gyflawni eu potensial. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda mewn partneriaeth ag ysgolion, gyda chefnogaeth arbenigedd lefel uchel o bob cwr o'r byd.

**Addysgeg** – Byddwn yn gweithio ym mhob rhan o'r system i sicrhau gwelliannau yn ansawdd yr addysgu drwy sicrhau bod gan athrawon a'r gweithlu staff cymorth y wybodaeth a'r sgiliau damcaniaethol ac ymarferol, yn seiliedig ar dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio, i ddatblygu potensial llawn pob dysgwr.

**Arweinyddiaeth** - Byddwn yn meithrin gallu arweinwyr addysg ar draws ysgolion a phob partner allweddol arall (yn yr haen ganol ac yn Llywodraeth Cymru) i ysbrydoli, hyfforddi, mentora, cefnogi, rhannu arferion, cydweithio a datblygu polisi ar bob lefel yn y system i greu ethos o arweinyddiaeth system a magu hyder yn ein taith gyda'n gilydd i wella addysg.

**System Hunanwella** – Byddwn yn adeiladu ar ein sylfeini cynnar i ddatblygu cydgyfrifoldeb dyfnach dros y system addysg gyfan sy'n cael ei arfer drwy gynghreiriau hirdymor ac onest sy'n llawn ymddiriedaeth ac sydd â llinellau clir o gyfrifoldeb a chyd-atebolrwydd yn seiliedig ar egwyddor sybsidiaredd.

O dan bob un o'r pum amcan gwella rydym yn cynnig nifer o gamau gweithredu allweddol ac mae'r drafft cyfredol i'w weld yn Atodiad A.

**Adnoddau**

I gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru am system addysg o'r radd flaenaf, bydd adnoddau'n cael eu cyfeirio at y meysydd hynny â'r flaenoriaeth fwyaf ac sy'n cael eu hategu gan ein cynllun gwella.

Caiff mwyafrif cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg ei ddarparu drwy Grant Cymorth Setliad Refeniw Llywodraeth Leol. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am osod cyllidebau craidd ar gyfer ysgolion ac yn 2016-17, yn ôl Gwariant wedi'i Gyllidebu Awdurdodau Lleol ar Ysgolion, roedd y gwariant crynswth ar ysgolion sy'n

DRAFT

cynnwys cyllid o bob ffynhonnell wedi'i gyllidebu i fod yn £2.519 biliwn ar gyfer Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu nifer o grantiau refeniw addysg penodol, yn cynnwys y Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion, y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r grant Ôl-16. Yn ogystal mae Llywodraeth Cymru'n darparu buddsoddiad cyfalaf sylweddol drwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Yn ystod y tymor Cynulliad cyfredol, rydym hefyd yn buddsoddi £100 miliwn ychwanegol. Bwriad y buddsoddiad hwn yw canolbwyntio ar gyflymu gwelliant yn ein camau gweithredu lefel uchel yn Atodiad A a fydd yn arwain at yr elw ar fuddsoddiad mwyaf ac a fydd yn helpu i greu'r amodau ar gyfer gwireddu manteision pellach. Er nad oes bwriad i'r cyfan o'r £100 miliwn gael ei ymestyn i ysgolion, bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio er budd ysgolion a'r bwriad yw pasbortio'r rhan fwyaf ohono i ysgolion, yn cynnwys drwy gonsortia rhanbarthol.

Yng Nghyllideb Ddrafft 2017-18, mae £20 miliwn wedi'i ddyrannu fel rhan o'r addewid i gael ei fuddsoddi yn erbyn ein camau gweithredu lefel uchel sydd wedi'u cynnwys yn ein cynllun gwella. Rydym yn bwriadu buddsoddi yn y meysydd canlynol:

- £0.25 miliwn ar Lesiant. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnydd o £4.5 miliwn i'r Grant Amddifadedd Disgyblion sydd wedi'i gyhoeddi;
- £3.2 miliwn ar feithrin gallu arweinwyr;
- £2.225 miliwn ar y Cwricwlwm ac Asesu;
- £10.99 miliwn ar Addysgeg; a
- £4.65 miliwn ar y System Hunanwella.

**Addysg yn y Cymoedd – Darlun Cyfredol o Wariant a Pherfformiad**

Yn absenoldeb map sydd wedi'i ddiffinio'n glir rydym wedi edrych ar wariant a pherfformiad ym maes addysg yn Nhorfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Powys ac Abertawe. Mae'n bwysig pwysleisio nad ydym yn dechrau ar fodel diffyg yn achos perfformiad. Mae yna rai ysgolion rhagorol yn y rhanbarth gydag arweinyddiaeth a chanlyniadau disgyblion heb eu hail.

Yn 2016-17, yn ôl Gwariant wedi'i Gyllidebu Awdurdodau Lleol ar Ysgolion, roedd y gwariant crynswth ar ysgolion (yn y Cymoedd) sy'n cynnwys cyllid o bob ffynhonnell wedi'i gyllidebu i fod yn £1,064,435 miliwn.  Caiff ei rannu fel hyn:

| Awdurdod Lleol | Gwariant Crynswth 2016-17 £m |
|---|---|
| Torfaen | 79,492 |
| Blaenau Gwent | 55,283 |
| Caerffili | 152,186 |
| RhCT | 215,010 |
| Merthyr | 48,879 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 120,281 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | 111,906 |
| Powys | 104,989 |
| Abertawe | 176,409 |

Bydd Band A o'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn gweld buddsoddiad o fwy na £640 miliwn gyda mwy na £320 miliwn i ddod gan Lywodraeth Cymru yn y 9 awdurdod lleol. Bydd y buddsoddiad yn yr ardaloedd hyn yn golygu bod modd ailadeiladu ac ailwampio 50 a mwy o ysgolion a cholegau yn yr ardal dros y pum mlynedd hyd at fis Mawrth 2019.

Mae prosiectau yn y Rhaglen yn cynnwys:

- Ysgol Gymunedol Aberdâr yn Rhondda Cynon Taf. Cafodd y prosiect adeilad newydd hwn gwerth £42.9 miliwn gyllid o £21.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y prosiect hwn i lansio'r Rhaglen ym mis Mai 2014;
- Tair ysgol gynradd newydd yn cynnwys Ysgol Panteg a Blenheim Road yn Nhorfaen. Cafodd y prosiect hwn gwerth £20.25 miliwn gyllid o £10.12 miliwn gan Lywodraeth Cymru;
- Ysgol Gymraeg Y Gwyndy, Caerffili. Mae'r buddsoddiad gwerth £20 miliwn yn darparu ar gyfer plant 3-18 oed a chafodd gyllid o £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru;
- £11 miliwn ar gyfer Campws Addysg Bellach newydd gwerth £22 miliwn yn Aberdâr; a
- Gwaith ailwampio gwerth £12 miliwn ar gyfer Ysgol Uwchradd Afon Taf ym Merthyr Tudful.

Bydd yr ail haen o gyllid, Band B, yn dechrau ym mis Ebrill 2019 ac yn para dros y bum mlynedd hyd at 2024. Rydym ni wrthi'n datblygu'r haen hon o fuddsoddiad, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddeall yr angen am gyllid yng Nghymru. Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn buddsoddi cyllid cyfalaf o £509 miliwn i'r Rhaglen hon, sy'n cyfrannu at ein hymrwymiad i fuddsoddi bron i £2 biliwn i wella ein hysgolion a'n colegau erbyn 2024.

Grant Gwella Addysg (EIG)

Drwy'r Grant Gwella Addysg rydym ni'n darparu dros £134 miliwn yn 2017-18 i gefnogi deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr. Gyda'r mwyafrif helaeth o gyllid wedi'i ddirprwyo i ysgolion, mae hwn yn parhau i fod yn fuddsoddiad hollbwysig o ran cefnogi ein hysgolion i helpu eu dysgwyr i gyflawni eu potensial.

Yn y Cymoedd, mae gan Awdurdodau Lleol fynediad at ymhell dros draean o gyllideb gyfan y Grant Gwella Addysg. Gyda'r gyllideb hon, yn sgil hyblygrwydd y grant, gall y consortia, ALllau ac ysgolion dargedu'r cyllid lle mae ei angen fwyaf. Rydym yn parhau i weithio gyda chonsortia i sicrhau bod cymaint â phosibl o'r grant yn cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion. Mewn gwirionedd, mae pob consortiwm wedi cynyddu'r gyfradd ddirprwyo ers cyflwyno'r grant ac maent hefyd wedi lleihau'r swm sy'n cael ei wario ar weinyddu a rheoli'r grant.

Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG)

DRAFT

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi pwysigrwydd cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion tlotach ac mae'n ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy Grant Amddifadedd Disgyblion estynedig. O ganlyniad, bydd mwy na £93 miliwn yn cael ei fuddsoddi drwy'r grant hwn yn 2017-18 i helpu gwasanaethau addysg i gau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer ein plant sydd dan anfantais. Bydd yr ysgolion yn y Cwm hwn yn elwa unwaith eto ar ymhell dros draean o gyllideb gyfan y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer Cymru. Mae'r rhai a fydd fwyaf ar eu hennill y flwyddyn nesaf yn cynnwys y dysgwyr cymwys hynny yn y Cyfnod Sylfaen y bydd eu dyraniad yn dyblu (o gymharu ag eleni). Mae hyn yn tanlinellu ymrwymiad parhaus i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais.

<u>Gwybodaeth benodol ychwanegol</u>

Drwy gyllideb y rhaglen Grant Amddifadedd Disgyblion mae Consortiwm Canolbarth y De wedi cael ail flwyddyn o gyllid i alluogi prosiect consortia i wella sgiliau llafaredd yn ysgolion cynradd Cymoedd y De. Mae'r prosiect wedi dewis ysgolion i ymchwilio'n benodol i lafaredd a'i effaith ar gyrhaeddiad a dyheadau plant yng nghymunedau'r Cymoedd. Bydd rheolwr y prosiect yn hwyluso'r gwaith o baratoi astudiaeth achos derfynol; pecyn cymorth llafaredd ac offeryn asesu, oll i'w cyhoeddi a'u rhannu ar draws y rhanbarth.

<u>Datblygu'r Cwricwlwm Newydd</u>

Mewn perthynas â datblygu ein cwricwlwm newydd mae ysgolion o'r Cymoedd yn arwain y gwaith hwn ac maent yn cynnwys:

| **Ysgol Arloesi** | **ALI** |
|---|---|
| Ysgol Gyfun Maesteg | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Oldcastle | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Gyfun Pencoed | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair, Pen-y-bont ar Ogwr | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Cynwyd Sant | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Gynradd Hendredenny Park | Caerffili |
| Ysgol Lewis Pengam | Caerffili |
| Ysgol Gynradd Caerffili | Caerffili |
| Ysgol Gynradd y Castell | Caerffili |
| Ysgol Gynradd Ystrad Mynach | Caerffili |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Bishop Hedley | Merthyr Tudful |
| Craig yr Hesg | Merthyr Tudful |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen | Merthyr Tudful |
| Ysgol Gynradd Santes Tudful | Merthyr Tudful |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Ysgol Santes Tudful | Merthyr Tudful |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon | RhCT |
| Ysgol Gatholig Cardinal Newman | RhCT |
| Cefn Primary Fern Federation | RhCT |
| Ysgol Gynradd Darran Park | RhCT |
| Ysgol Gymunedol Glynrhedynog | RhCT |
| Ysgol Gyfun Treorci | RhCT |
| Ysgol Y Pant | RhCT |
| Ysgol Gyfun Garth Olwg | RhCT |
| Ysgol Llanhari | RhCT |
| Ysgol Gynradd Coed Eva | Torfaen |
| Ysgol Gynradd George Street | Torfaen |
| Ysgol Gynradd Garnteg | Torfaen |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban | Torfaen |

<u>Canlyniadau Perfformiad</u>

Mae 22 ysgol o’r Cymoedd yn cymryd rhan yn ein rhaglen Her Ysgolion Cymru ac wedi elwa ar fuddsoddiad dwy flynedd o £10,592,922 (refeniw) a £3,391,185 (cyfalaf). Caiff perfformiad yr ysgolion hyn ei fesur ar Lefel 2+ (5 Safon Uwch A*-C yn cynnwys naill ai Cymraeg neu Saesneg Iaith a Mathemateg) a pherfformiad disgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim ar Lefel 2+.

**Darpariaeth a Chynnig y Dyfodol**

Awdurdodau lleol sydd â’r cyfrifoldeb statudol dros addysg. Caiff gwasanaethau gwella addysg eu gweithredu gan bedwar consortiwm rhanbarthol – mae tri ohonynt yn weithredol yn y Cymoedd (Consortiwm Canolbarth y De, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac ERW). Fel rhan o’u cynllun busnes rydym yn disgwyl iddynt flaenoriaethu adnoddau lle mae’r angen mwyaf a’r effaith fwyaf yn unol â’n cynllun gwella cenedlaethol. Er y bydd ein £100 miliwn o fudd i bob ysgol, mae cyfleoedd i ysgolion yn y tri chonsortiwm rhanbarthol i arwain ac elwa ar ein camau gweithredu lefel uchel. Byddwn yn trafod y rhain gyda chonsortia ddiwedd mis Ionawr ac yn darparu diweddariad ar 2 Chwefror.

Mae awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau’r ddarpariaeth yn cynnwys:

- Gwella addysgu a dysgu
- Datblygu amrywiaeth o fodelau cydweithio i rannu arfer gorau a gwybodaeth
- Gwella ein cynnig arweinyddiaeth
- Ffocws ar lafaredd – y gallu i gyflwyno, siarad a chael gwrandawiad
- Hyfforddiant cymheiriaid a modelau mentora
- Olrhain trwyadl, ymyriadau â ffocws ar anghenion penodol, proffilio pobl ifanc agored i niwed, yn enwedig yn y cyfnod pontio

DRAFT

- Ymgysylltu â'r gymuned – presenoldeb, tîm o amgylch y teulu, lefelau llythrennedd yn cynnwys prosiectau'r trydydd sector gydag effaith (e.e. FAST Achub y Plant)
- Defnydd arloesol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg
- Modelau i weithio gyda rhieni ar feithrin annibyniaeth a gwydnwch ymhlith pobl ifanc
- Ffocws cydgysylltiedig ar gyfleoedd allgyrsiol ar draws ysgolion - gydag anodau celfyddydau, diwylliannol
- Adnoddau i gyflwyno a chefnogi dewisiadau SAU ar gyfer plant mwy abl a thalentog
- Cludiant fforddiadwy a dibynadwy i fynd i'r coleg ar ôl 16 a chymorth pontio
- Cynllunio darpariaeth yn y gymuned leol, heb fod yn rhy bell i ffwrdd
- Gwybodaeth a chyllid ar gyfer prentisiaethau a llwybrau i waith medrus i ateb y galw yn y gymuned
- Llwybrau i BBaChau gyfrannu at brentisiaethau a swyddi gyda llwybrau hyfforddi
- Proffilio swyddi yn yr hirdymor – sgiliau uwch, ond mae pobl ifanc angen L1/L2 i symud ymlaen i L3/L4
- Dull cydgysylltiedig o gyllido ar gyfer y cymunedau hyn, sy'n meithrin sgiliau, dyheadau ac yn dileu rhwystrau i gyrhaeddiad yn yr ysgol/coleg

**Datblygu'r Cynnig**

Mae Llywodraeth Cymru a'r tri chonsortiwm rhanbarthol yn cyfarfod ar 24 Ionawr i ddatblygu dull cydlynol o ddatblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau gwella addysg yn y Cymoedd. Er bod Llywodraeth Cymru yn pennu'r strategaeth addysg genedlaethol, cyfrifoldeb consortia ac awdurdodau lleol yw sicrhau gwelliannau a chefnogaeth yn seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau lleol/rhanbarthol.

Yn ein cyfarfod byddwn yn trafod yr hyn gall y tri chonsortiwm ei wneud i ddwyn ynghyd ysgolion, tai, cyllidebau cymunedau ac ymgysylltiad â chyflogwyr mewn modd cyfannol i sicrhau gwella addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth. Yn benodol byddwn yn edrych ar sut gall consortia glystyru ysgolion i:

- Nodi ac ymyrryd yn achos plant sy'n tangyflawni ac olrhain a chymhwyso ymyriadau - rhannu dysgu yn ymarferol
- Sut gall gwaith gyda gwasanaethau cymunedol ymgysylltu rhieni'n gynnar a gyda gwasanaethau ymyrraeth gynnar
- Beth mae ysgolion yn ei wneud i feithrin gallu ar gyfer addysgu a dysgu rhagorol yn eu clwstwr a sut maent yn meddwl am fodelau twf arweinwyr ar draws y clwstwr
- Sut maent yn defnyddio'r adnoddau'n ehangach i ddatblygu model allgyrsiol mwy hollgynhwysol gan ddefnyddio cysylltiadau busnes a diwylliannol lleol
- Sut maent yn darparu llwybrau i ddisgyblion hynod alluog gael eu nodi a'u cefnogi o'r ysgol gynradd ymlaen ac ennyn dyhead i fynd ar drywydd gwaith ac addysg uwch

## Atodiad 1

## Bwrdd Tasglu'r Cymoedd – Gwasanaethau Cyhoeddus: Papur y Cynnig Tai

### Trosolwg o Drafodaethau'r Tasglu (HYD YMA)

Cafwyd cyflwyniad gan Duncan Forbes, Tai Cymunedol Bron Afon, i'r tasglu yn trafod effaith tai. Mae hyn yn cynnwys:

- Tystiolaeth o duedd o lai o alw am gartrefi ym mlaenau'r cymoedd, yn cael ei hategu gan werthoedd eiddo, rhenti'r farchnad a dyraniadau tai cymdeithasol.
- Cyfran uchel o berchnogion-feddianwyr gyda chartrefi sydd angen buddsoddiad sylweddol na allant ei fforddio.
- Cysylltedd; signal ffôn, band eang, trafnidiaeth gyhoeddus a pharcio.
- Integreiddio rhaglenni gwrthdlodi Llywodraeth Cymru a chysondeb rhwng y rhain a rhaglenni'r UE, cyrsiau AB, prentisiaethau ac ati.
- Cynnyrch tai newydd ar gyfer perchnogion-feddianwyr i gymryd cam ymlaen at gydberchnogaeth, gan ryddhau cyfalaf.
- Pwyso a mesur y potensial ar gyfer yr economi sylfaenol.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal hefyd ar y cwmpas a'r potensial ar gyfer y sector tai fel cyflogwr i sbarduno'r broses o greu swyddi a sgiliau. Mae'r angen i roi am fwy o ffocws ar fudd i'r gymuned mewn dulliau caffael drwy gontractau Llywodraeth Cymru wedi'i godi.

### Ymrwymiadau Allweddol Presennol (HYD YMA)

Mae angen sicrhau cysondeb rhwng yr ymrwymiadau a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen' ac o drafodaethau mewn cyfarfodydd dwyochrog ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ac yn ystod trafodaethau'r tasglu. Mae'r ymrwymiadau hyn yn cynnwys:

| |
|---|
| Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn y tymor nesaf, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o adeiladu mwy na 6,000 o gartrefi drwy'r cynllun Cymorth i Brynu. (Y Rhaglen Lywodraethu)<br><br>Cynorthwyo i ddarparu cartrefi newydd drwy Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai. (Cyfarfod dwyochrog).<br><br>Bydd 1000 o gartrefi newydd yn fodelau arloesol a fydd yn ddefnyddwyr rhad-ar-ynni ac yn helpu i drechu tlodi tanwydd ac yn rhoi arian ym mhocedi'r rhai ar yr incwm isaf o bosib. |
| Parhau i gydweithio yn yr hirdymor ag adeiladwyr tai i sicrhau bod tai yn cael eu hadeiladu yn gynt. Ystyried materion eirlin a datblygu cynllunio i ddenu adeiladwyr. (Y Rhaglen Lywodraethu) |
| Gwella dealltwriaeth o gymunedau'r cymoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu |

DRAFT

| |
|---|
| rhaglenni adfywio a thai i gefnogi cymunedau cadarn, gan gynnwys datblygu cynllun datblygu/ gofodol strategol ar gyfer y cymoedd i fapio cyfleoedd a heriau. (Cyfarfod dwyochrog a thrafodaethau yn y tasglu). |
| Cyflawni'r ymrwymiad i sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020 a chynnal y Safonau wedi hynny. |
| Archwilio cyfleoedd o ran stoc tai preifat i gynyddu ansawdd tai. (Cyfarfod arweinwyr awdurdodau lleol) yn seiliedig ar y data sy'n codi o'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai a fydd yn cefnogi gwybodaeth ar ble mae angen buddsoddiad, yn ôl math o gartref a deiliadaeth. |

## Rhaglenni allweddol sy'n ategu camau gweithredu ac ymrwymiadau

- Grant Tai Cymdeithasol - darparu cyllid cyfalaf sylweddol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ar gyfer datblygu tai fforddiadwy. Dyrennir cyllid ar sail fformiwla. Yn 2016/17, rydym yn sicrhau bod £68.1 miliwn yn ogystal â £30 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer tai fforddiadwy newydd drwy'r Grant Tai Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r cyllid Grant Tai Cymdeithasol sydd ar gael i'r ardaloedd Awdurdod Lleol o fewn Rhanbarthau'r Cymoedd.

| **Awdurdod Lleol** | **Cyllid Grant Tai Cymdeithasol** |
|---|---:|
| Blaenau Gwent | £1,245,502 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £2,271,457 |
| Caerffili | £1,929,247 |
| Sir Gaerfyrddin | £2,942,226 |
| Merthyr Tudful | £989,924 |
| Castell-nedd Port Talbot | £2,217,837 |
| Rhondda Cynon Taf | £3,455,714 |
| Abertawe | £4,107,953 |
| Tor-faen | £2,063,387 |
| **Cyfanswm** | **£21,223,247** |

- Grant Cyllid Tai - rydym yn bwriadu ymestyn y Grant Cyllid Tai gydag ail gyfnod yn dechrau yn 2017-18. Gallai hyn ddarparu hyd at 1,500 o gartrefi fforddiadwy newydd a chreu oddeutu 5,000 o swyddi. Mae'r ail gyfnod hwn wedi'i ymestyn i'r 11 Awdurdod Lleol sy'n dal stoc a'r Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, gyda'r Awdurdodau Lleol yn gallu cymryd rhan yn y rhaglen o fis Ebrill 2018.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r cyllid Grant Cyllid Tai 30 blynedd sydd

DRAFT

ar gael i ardaloedd Awdurdod Lleol yn Rhanbarth y Cymoedd o dan gyfnod 1 y Grant Cyllid Tai, a ddechreuodd yn 2013-14.

| Awdurdod Lleol | Cyllid Grant Cyllid Tai |
|---|---|
| Blaenau Gwent | £2,969,273.70 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £4,180,695.90 |
| Caerffili | £6,838,725.90 |
| Sir Gaerfyrddin | £7,032,315.60 |
| Merthyr Tudful | £1,971,651 |
| Castell-nedd Port Talbot | £5,146,714.80 |
| Rhondda Cynon Taf | £8,704,287.30 |
| Abertawe | £10,171,820.01 |
| Tor-faen | £4,749,344.70 |
| **Cyfanswm** | **£51,764,828.91** |

- Rhentu i Brynu - Mae Symud Cymru Ymlaen yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu cynllun Rhentu i Brynu. Bydd y cynllun wedi'i gynllunio i gefnogi'r rhai sy'n dyheu i gael prynu eu cartref eu hunain ond sy'n cael trafferth cynilo ar gyfer blaendal gwerth chweil. Rydym wrthi'n pwyso a mesur opsiynau amrywiol ar gyfer y cynllun hwn a bydd manylion yn dilyn yn y misoedd nesaf. Ein nod mwy cyffredinol fydd hyrwyddo llwybrau amrywiol i berchnogaeth cartref am gost fforddiadwy.

- Modelau tai arloesol – gallai cartrefi fforddiadwy newydd sy'n cael eu hadeiladu yn ardaloedd y Cymoedd adlewyrchu modelau newydd sy'n gostwng biliau tanwydd ac allyriadau carbon, ond sydd hefyd o fudd i'r ardal drwy greu cyfleoedd economaidd drwy ddull manteision cymunedol o ran caffael a chyrchu swyddi, hyfforddiant a chynnyrch yn lleol.

- Tir Llywodraeth Cymru – gweithio gyda chydweithwyr yn y Cabinet i gynnig tir y gellir ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o adeiladu tai ledled Cymru. Gallai hyn gynnwys safleoedd yn y Cymoedd a gallai adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol fel cytundebau'r Dinas-Ranbarthau a'r Metro.

- Iechyd a Thai – yn ystod tymor diwethaf y llywodraeth, gwnaed cynnydd da o ran cydweithio ar faterion tai ac iechyd, gan fuddsoddi £60 miliwn yn ystod y weinyddiaeth.

DRAFT

- Cymorth i Brynu - Cymru - mae perchnogaeth tai fforddiadwy yn ffordd bwysig i lawer o deuluoedd gael eu troed gyntaf ar yr ysgol dai. Rydym yn buddsoddi hyd at £290 miliwn hyd 2021 yn y cynllun Cymorth i Brynu - Cymru i gefnogi Datblygwyr a phrynwyr cartrefi newydd. Mae'r cynllun wedi cefnogi'r gwaith o adeiladu hyd at 4,180 o gartrefi, a dyma ddadansoddiad ledled ardal Awdurdodau Lleol y Cymoedd.

| **Awdurdod Lleol** | **Nifer a gwblhawyd** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 17 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 394 |
| Caerffili | 190 |
| Sir Gaerfyrddin | 365 |
| Merthyr Tudful | 94 |
| Castell-nedd Port Talbot | 230 |
| Rhondda Cynon Taf | 351 |
| Abertawe | 261 |
| Tor-faen | 57 |

- Mae adolygiad annibynnol o Bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol yn cael ei gomisiynu. Bydd yr adolygiad yn ystyried y polisi rhent ei hun a sut gallai dylanwadau allanol effeithio ar y polisi rhent, landlordiaid cymdeithasol, eu tenantiaid, benthycwyr a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru. Yn benodol, bydd yr Adolygiad yn ystyried cyhoeddiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â chapio'r Budd-dal Tai ar gyfer tenantiaid sector cymdeithasol ar y cyfraddau Lwfans Tai Lleol priodol.

- Ein Cynllun Tir ar gyfer Tai a lansiwyd yn 2014 i gynyddu'r opsiynau cyllid sydd ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig brynu safleoedd tir i ddatblygu tai. Hyd yma, rydym wedi buddsoddi £22 miliwn i gefnogi'r gwaith o adeiladu hyd at 1,100 o gartrefi newydd gyda £10 miliwn pellach yn cael ei ddyrannu eleni. Mae cymoedd y De yn elwa ar y cynllun hwn, gan fod Cymdeithasau Tai wedi llwyddo i sicrhau benthyciadau ar gyfer caffael tir er mwyn datblygu tai bob blwyddyn o'r cynllun ers y peilot yn 2014/15, gan gynnwys eleni.

- Sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei chyrraedd erbyn 2020 a bod y buddsoddiad yn gwella cartrefi pobl dlotaf ein cymunedau drwy ddefnyddio caffael da i greu swyddi lleol, hyfforddiant a chyfleoedd eraill. Amcangyfrifir bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru o £108 miliwn y flwyddyn yn denu £500 miliwn y flwyddyn ychwanegol drwy landlordiaid cymdeithasol sy'n buddsoddi'n sylweddol i wella a chynnal eu stoc gyda'r holl fanteision a ddaw yn sgil hynny.

- Budd i'r gymuned - adeiladu ar lwyddiant sylweddol mynnu bod landlordiaid cymdeithasol yn rhoi budd i'r gymuned wrth iddynt gaffael gwelliannau i dai ac wrth adeiladu tai. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod cyfanswm contractau ar gyfer y sector tai cymdeithasol yn £659 miliwn gyda 85% o'r refeniw hwn yn mynd i fusnesau yng Nghymru, gyda 60% o'r rhain yn BBaChau. Cynorthwyodd cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ddifreintiedig 1460 o swyddi yn yr un cyfnod. Crëwyd 36,984 o gyfleoedd hyfforddiant.

DRAFT

- Trwy Raglen Ymgysylltu ag Adeiladwyr Tai Llywodraeth Cymru, rydym yn cadw mewn cysylltiad â datblygwyr sy'n gweithio yn yr ardal, yn enwedig BBaChau. Yn sgil y cyfathrebu uniongyrchol hwn â chwmnïau fel Lanmoor Homes, Lewis Homes a Davis Homes, rydym yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau canfyddedig i ddatblygu yn y rhanbarth. Yn ogystal, rydym yn ymgysylltu â'r sector adeiladu BBaChau i hyrwyddo'r cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael i fod yn adeiladwyr tai.

- Cronfa Datblygu Eiddo - rydym yn cynyddu gwerth y Gronfa hon i £40 miliwn, sy'n cefnogi BBaChau drwy ddarparu cyllid ecwiti ar gyfer datblygu tai. Gall hyn ddod â budd anghymesur i rannau o'r Cymoedd, o ran cyflwyno tai newydd, lle mae'r adeiladwyr tai mawr yn amharod i gynnal cynlluniau.

- Troi Tai'n Gartrefi – cyllid benthyciad i ailddefnyddio eiddo gwag – cwmpasu holl ardaloedd y Cymoedd.

- Benthyciadau gwella cartrefi – cyllid benthyciad i berchnogion-feddianwyr i gyllido peryglon iechyd a diogelwch categori 1 a 2 sy'n cwmpasu holl ardaloedd y cymoedd, heblaw am ALI Pen-y-bont ar Ogwr a ddewisodd beidio cymryd rhan.

- Adfywio a arweinir gan dai - drwy raglen gyfalaf Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, mae enghreifftiau'n cynnwys "WHQS plus" sef adfywio a arweinir gan stadau tai rhent cymdeithasol e.e. Rowan Place, Caerffili

### Y Camau Nesaf - Beth yw'r cynnig tai ar gyfer y cymoedd?

Rhagwelir y bydd mwy na £1.5 biliwn yn cael ei fuddsoddi i adeiladu tai, gwella cartrefi ac mewn cynlluniau adnewyddu dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn adeiladu ar y buddsoddiad sylweddol sydd eisoes yn cael ei wneud mewn rhaglenni yn ardaloedd y Cymoedd. Er mwyn elwa i'r eithaf ar y buddsoddiad bydd angen cynllunio rhanbarthol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Y 'cynnig' yw:

- Targedu'r gwaith o adeiladu tai newydd, gan ddefnyddio modelau tai arloesol lle bynnag y bo'n bosibl, mewn ardaloedd lleol lle mae angen am dai o wahanol fathau o ddeiliadaeth i adlewyrchu'r angen lleol.

- Targedu tir ar gyfer tai er mwyn sbarduno buddsoddiad mewn ardaloedd allweddol fel safleoedd yn ardaloedd y Metro a'r Ddinas-Ranbarth gan ddarparu tai a deiliadaethau o bob math.

- Cynorthwyo busnesau a sefydliadau lleol newydd yn y cymoedd drwy ganolbwyntio ar dargedu atebion yn seiliedig ar dai fforddiadwy ar gyfer gweithwyr allweddol lle mae angen am dai.

- Edrych ar opsiynau newydd cost isel a hyblyg i letya pobl ifanc yn y cymoedd yn sgil diwygiadau lles, sy'n gost isel ac yn hyblyg, yn cynnwys modelau tai arloesol.

- Ystyried archwilio model cydberchenogaeth groes ar gyfer perchenogion tai er mwyn gallu atgyweirio eiddo lle mae angen.

- Rhannu llwyddiant gallu'r sector tai i sicrhau manteision i'r gymuned drwy gontractau caffael a pharhau i greu buddsoddiad, swyddi a chyfleoedd hyfforddi yn ardaloedd y cymoedd yn cynnwys drwy dwf gwyrdd a mentrau cymdeithasol.

- Ar sail data o'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai, edrych ar y buddsoddiad sydd ei angen i wella cartrefi pobl a sut gall y gwaith hwn nid yn unig greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi ond hefyd fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â thlodi tanwydd, newid hinsawdd, allyriadau carbon a demograffeg sy'n newid.

- Parhau ag adfywio a arweinir gan dai fel elfen o adfywio ehangach sy'n targedu stadau tai cymdeithasol (rhaglen SATC a Mwy ac annog deiliadaeth gymysg) ochr yn ochr â thrawsnewid ehangach mewn ardaloedd annedd allweddol.

- Galluogi gwaith ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol i gynorthwyo i atal ACE ar stadau tai cymdeithasol difreintiedig allweddol gan gynnwys edrych ar ddatblygu parthau plant.

- Cynnig deiliadaeth gymysg – manteisio ar y cynnyrch rhentu i brynu newydd – gan alluogi mwy o bobl i fod yn berchen ar eu cartref yn ogystal â modelau rhannu perchnogaeth.

- Tai, iechyd a gofal cymdeithasol – gwneud y defnydd gorau posibl o asedau iechyd – tir ac adeiladau i gynorthwyo gydag anghenion tai.

- Cronfa datblygu eiddo – cynorthwyo BBaChau yn y Cymoedd wrth adeiladu tai. Ystyried modelau hunan-adeiladu.

DRAFT

## Atodiad 2

## Bwrdd Tasglu'r Cymoedd – Gwasanaethau Cyhoeddus: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Trosolwg o Drafodaethau'r Tasglu (HYD YMA)

Cafwyd cyflwyniad gan Dr Gill Richardson. Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol Aneurin Bevan i'r tasglu yn trafod effaith y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal a heriau iechyd ledled y cymoedd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys:

- Mae materion iechyd y cyhoedd yn hollbwysig i herio ymddygiad sy'n gysylltiedig â ffyrdd iach o fyw.
- Mae angen gwneud gwaith pellach mewn cysylltiad ag integreiddio gwasanaethau ar lefel gymunedol.
- Teimlwyd bod cadw meddygon teulu a nyrsys yn y cymoedd yn fater hollbwysig a'r angen am dimau amlddisgyblaethol ehangach o gwmpas y meddyg teulu, fel fferyllfa a gwasanaeth presgripsiynau cymdeithasol fel y gwelir yn y ganolfan Bromley by Bow.
- Perygl na fydd atal a gofal sylfaenol yn cael blaenoriaeth ar adeg o gyni, pan fydd pwysau sylweddol ar ysbytai sydd angen adnoddau.
- Y boblogaeth gyda mwy o flynyddoedd mewn salwch – pwysau ar y sector gofal.
- Ansicrwydd cyflogaeth yn y sector gofal gyda chontractau dim oriau a chyflogau isel.
- Teimlwyd y byddai'n syniad manteisio ar gyfleoedd yn y sector gofal a'r economi sylfaen, e.e. canolfan ragoriaeth hyfforddiant ar gyfer y Cymoedd.
- Teimlwyd ei bod yn bwysig meithrin cysylltiadau â dulliau a blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a fydd yn cael eu nodi drwy asesiadau o anghenion ar gyfer hyn a bod gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn bwysig.
- Mae angen cysoni'r cynllun adnewyddu hirdymor ar gyfer anghenion gofal sylfaenol â gwaith y tasglu.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal hefyd ar gwmpas a photensial y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol fel cyflogwr i sbarduno creu swyddi a sgiliau. Crybwyllwyd yr angen am fwy o ffocws ar gynnwys budd i'r gymuned mewn dulliau caffael drwy gontractau Llywodraeth Cymru.

### Ymrwymiadau Allweddol Presennol (HYD YMA)

Mae angen sicrhau cysondeb rhwng yr ymrwymiadau a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen' ac unrhyw ymrwymiadau a gynigir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon neu'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd mewn cyfarfodydd dwyochrog. Mae'r ymrwymiadau hyn yn cynnwys:

***Iechyd***

- Parhau i wella mynediad i feddygfeydd teulu, gan ei gwneud yn haws i gael apwyntiad (y Rhaglen Lywodraethu).

DRAFT

- Buddsoddi mewn fferyllfeydd cymunedol i ysgafnhau'r pwysau ar ein meddygfeydd (y Rhaglen Lywodraethu).
- Buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig ochr yn ochr â thrawsnewid ein hystâd ysbytai (y Rhaglen Lywodraethu).
- Gweithredu i ddenu a hyfforddi mwy o feddygon teulu, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ledled Cymru (y Rhaglen Lywodraethu).

***Iechyd y Cyhoedd***

- Gweithredu rhaglen Plant Iach Cymru i sicrhau cysondeb o ran darpariaeth gwasanaethau iechyd cyffredinol i blant hyd at saith oed (Y Rhaglen Lywodraethu)
- Gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo ymarfer corff i blant a phobl ifanc, ac ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd dewisiadau bywyd iach. (Y Rhaglen Lywodraethu)
- Parhau i hyrwyddo ymarfer corff a maeth, lleihau'r achosion o or-yfed alcohol a thorri cyfraddau ysmygu Cymru i 16% erbyn 2020. (Y Rhaglen Lywodraethu)
- Cyflwyno Bond Llesiant Cymru, gyda'r nod o wella iechyd meddyliol a chorfforol a lleihau achosion o ddiffyg ymarfer corff, diffyg maeth a gor-yfed alcohol. (Y Rhaglen Lywodraethu)
- Cymorth cyflogaeth arbenigol i bobl sy'n gwella o gamddefnyddio sylweddau a chyflyrau iechyd meddwl - cysylltiadau â Gwasanaeth Allan o Waith (ymrwymiad dwyochrog).
- Ystyried y ganolfan Bromley by Bow ac enghreifftiau rhyngwladol eraill o wasanaethau integredig mewn perthynas â chael gwared ar y label 'difreintiedig' o'r cymoedd – cysylltiadau â'r Ddeddf Gwerth Gwrthgyfartal (ymrwymiad dwyochrog).
- Cysylltiad â chadeiryddion byrddau partneriaeth rhanbarthol a chysondeb â'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled y cymoedd yng Ngwent, Cwm Taf, Bae'r Gorllewin a'r Gorllewin – gan ddefnyddio'r Gronfa Gofal Canolraddol (ymrwymiad dwyochrog).
- Cysylltiad â rhaglen Plant Iach Cymru ac ystyried rhaglenni peilot ar gyfer y dyfodol (ymrwymiad dwyochrog).

***Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio***

- Gwella'r gefnogaeth ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol – hyfforddiant a datblygiad/ treialu cofrestru gweithwyr gofal gartref a phreswyl oedolion, Strategaeth Gofal yn y Cartref/gofal cymdeithasol cyfleoedd Esgyn / Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol – cwmpas i dreialu dulliau yn y cymoedd mewn trafodaeth â Chyngor Gofal Cymru (ymrwymiad dwyochrog).
- Mwy na dyblu'r cyfalaf y gall pobl ei gadw wrth symud i ofal preswyl i £50,000 (ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu).
- Sicrhau bod ein deddfwriaeth arloesol ar wasanaethau cymdeithasol yn cael ei gweithredu'n llawn a bod yr holl fanteision yn cael eu gwireddu (ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu).
- Cadw'r Gronfa Gofal Canolraddol (y Rhaglen Lywodraethu).
- Datblygu strategaeth genedlaethol a thraws-lywodraethol i roi sylw i unigrwydd ac arwahanrwydd (ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu).



DRAFT

## Rhaglenni allweddol sy'n ategu camau gweithredu ac ymrwymiadau

Mae nifer o raglenni eisoes ar waith i gefnogi gwaith Tasglu'r Gweinidogion ar gyfer y Cymoedd. Darperir dwy astudiaeth achos yma:

*Mynd i'r afael â'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal*

Nod Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yw gwella disgwyliad oes a disgwyliad oes iach poblogaethau gyda'r lefelau uchaf o amddifadedd a marwoldeb uchel o glefydau cardiofasgwlaidd, diabetes a chanserau.

Ffocws cychwynnol y rhaglen yw cynyddu llythrennedd iechyd unigolion, datgelu cyflyrau y gellir eu trin, cyfeirio at raglenni hybu iechyd priodol neu glinigwyr ar gyfer triniaethau a lleihau marwolaethau cynamserol a derbyniadau brys gyda chlefydau cardiofasgwlaidd mewn ardaloedd difreintiedig drwy wella'r gwaith o adnabod a rheoli ffactorau risg cardiofasgwlaidd fel gorbwysedd, hyperlipidaemia.

Mae Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Phrifysgol Cwm Taf yn datblygu rhaglen ar gyfer asesu risg cardiofasgwlaidd, yn gyson â chyffredinoliaeth gyfatebol, gan flaenoriaethu anghenion y boblogaeth leol, a rhoi ffocws cadarn ar alluogi ymddygiad iechyd cadarnhaol y gellir ei addasu a gwell llythrennedd iechyd. Mae ymdrechion yn cael eu targedu mewn ardaloedd gyda marwoldeb cynamserol uchel o gyflyrau y gellir eu hatal, sydd hefyd yn tueddu i fod yn ardaloedd o amddifadedd economaidd uchel.

- Cynnwys model cyfannol, cynaliadwy ar gyfer adnabod pobl sydd mewn perygl o glefydau cardiofasgwlaidd/ canser/ diabetes drwy asesu risgiau yn y boblogaeth.

Mae Byrddau Iechyd Aneurin Bevan a Chwm Taf wedi arwain ar y gwaith o ddatblygu'r gwaith hwn ac maent yn cyfrannu at gyflwyno dull Cymru gyfan sy'n cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredu Clefyd y Galon.

Y nod yw cynnal gweithgarwch yn ardal pob Bwrdd Iechyd sydd â diddordeb erbyn 2018, gyda'r gwaith cychwynnol yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer yr ardaloedd cymunedol mwyaf difreintiedig. Bydd gan bob Bwrdd Iechyd ddull rhaglen y cytunir arni sy'n disgrifio sut bydd y gweithgarwch hwn yn cael ei ddarparu i'w poblogaeth.

*Deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol*

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) nifer o egwyddorion allweddol sy'n gysylltiedig ac a fydd yn ategu gwaith sy'n cael ei symud ymlaen gan Fwrdd Tasglu'r Cymoedd. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- Ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar (oedi neu osgoi'r angen am fwy o ddibyniaeth ar wasanaethau statudol).
- Partneriaethau a chydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a gyda phartneriaid eraill drwy sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol a fydd

angen sicrhau bod gwasanaethau ar waith i ymateb i’r asesiad poblogaeth ar y cyd a diwallu anghenion pobl yn y rhanbarth.

- Edrych ar fodelau gofal a chymorth newydd a sicrhau bod gan bobl mwy o lais a rheolaeth dros eu gofal a’u cymorth (cyd-gynhyrchu a chadernid cymunedol).
- Ceisio datblygu gweithlu gofal cymdeithasol mwy cynaliadwy a phroffesiynol.
- Cyfrannu at fwy o wasanaethau cyhoeddus effeithiol drwy greu cyfundrefn reoleiddio sy’n galluogi a grymuso dinasyddion a gweithwyr gwasanaeth proffesiynol.

DRAFT

## Atodiad 3

**Bwrdd Tasglu'r Cymoedd – Gwasanaethau Cyhoeddus: Papur y cynnig addysg**

**Trosolwg o Drafodaethau'r Tasglu (HYD YMA)**

Cafwyd cyflwyniad gan Hannah Woodhouse, Consortiwm Canolbarth y De, Andrew Llewellyn, Pennaeth Ysgol Gynradd Glenboi, Cwm Cynon, Heather Nicholas, Pennaeth Ysgol Uwchradd Glynrhedynog a Judith Evans Pennaeth Coleg y Cymoedd i'r tasglu yn trafod effaith addysg. Roedd y blaenoriaethau ar gyfer y ddarpariaeth yn cynnwys:

- Ffocws ar lefaredd – y gallu i gyflwyno, siarad a chael eich clywed
- Hunan  ganfyddiad a dadansoddi lles a dilyniant wrth gynllunio
- Hyfforddiant cyfoedion a modelau mentora
- Gwisg ysgol, cyngor ysgol, brandio - meithrin balchder, cadernid, annibyniaeth a disgwyliadau uchel
- Ffocws ar werthoedd, cwricwlwm diwylliannol a phrofiadau cyfoethogi
- Tracio cadarn, ymyriadau â ffocws ar anghenion penodol, proffilio pobl ifanc agored i niwed wrth bontio'n benodol
- Ymgysylltu â'r gymuned – presenoldeb, tîm o amgylch y teulu, lefelau llythrennedd gan gynnwys prosiectau trydydd sector gydag effaith (e.e. Achub y Plant – Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i Gilydd)
- Llyfrgelloedd mewn ysgolion, dod â llyfrau i blant a TGCh – wynebu tuag allan
- Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Cynhaliaeth Addysg yn hollbwysig i gyllido ymyriadau, cludiant, ymgysylltu cymunedol a chymorth
- Modelau i weithio gyda rhieni ar feithrin annibyniaeth a chadernid ymysg pobl ifanc
- Ffocws cydgysylltiedig ar gyfleoedd allgyrsiol ar draws ysgolion – gydag adnoddau diwylliannol a'r celfyddydau
- Adnoddau i gyflwyno a chefnogi dewisiadau SAU ar gyfer plant mwy galluog a dawnus
- Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn cael eu gorddefnyddio ac yn wynebu galw cynyddol
- Cludiant fforddiadwy dibynadwy i gyrraedd y coleg ôl-16 a chymorth pontio
- Cynllunio darpariaeth yn y gymuned leol, ddim yn rhy bell ohoni
- Gwybodaeth a chyllid ar gyfer prentisiaethau a llwybrau i waith medrus i gyfateb i'r galw yn yr economi
- Llwybrau i BBaChau ymgysylltu â phrentisiaethau a chyflogaeth gyda llwybrau hyfforddiant
- Ystyried datgymhellion fformiwlâu cyllido a phwysoliadau meincnod ar gyfer amddifadedd
- Proffilio swyddi yn yr hirdymor – sgiliau uwch, ond mae pobl ifanc angen L1/L2 i fynd ymlaen i L3/L4
- Dull cydgysylltiedig o gyllido ar gyfer y cymunedau hyn, sy'n meithrin sgiliau, dyheadau ac yn chwalu rhwystrau i gyflawni yn yr ysgol/coleg

Mae trafodaethau wedi'u cynnal ar y cwmpas a'r potensial i wella safonau addysgu ledled y cymoedd, y teimlwyd y dylai fod yn well nag mewn mannau eraill. Teimlwyd bod arweinyddiaeth, disgwyliadau uchel a strategaethau ysgol gyfan yn hollbwysig.

## Ymrwymiadau Allweddol Presennol

Mae angen sicrhau cysondeb rhwng y cymunedau a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu, 'Symud Cymru Ymlaen'. Mae'r ymrwymiadau hyn yn cynnwys:

| |
|---|
| Buddsoddi £100 miliwn ychwanegol i wella safonau ysgolion dros y tymor nesaf. (y Rhaglen Lywodraethu) |
| Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion estynedig. (Y Rhaglen Lywodraethu) |
| Buddsoddi bron £2 biliwn erbyn 2024 mewn ailwampio ysgolion, adeiladau ysgolion newydd, adeiladau ysgolion cymunedol ac adeiladau colegau. (Y Rhaglen Lywodraethu) |
| Cynnal cynllun peilot o fodel newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol a fydd yn darparu ystod estynedig o wasanaethau megis gofal plant, cymorth i rieni, dysgu i deuluoedd a mynediad at gyfleusterau i'r gymuned, a hynny oll wedi'i ddatblygu o gwmpas y diwrnod ysgol. (Y Rhaglen Lywodraethu) |
| Cydnabod, hyrwyddo ac annog rhagoriaeth ym maes addysgu er mwyn codi safonau, a datblygu hyfforddiant a chyfleoedd i athrawon a'r gweithlu addysg ehangach. (Y Rhaglen Lywodraethu) |

## Rhaglenni allweddol sy'n ategu camau gweithredu ac ymrwymiadau

**Llesiant a Thegwch mewn Addysg**

- Ymestyn y Grant Amddifadedd Ysgolion er mwyn i ysgolion allu ddylanwadu'n fwy cadarnhaol ar gyfleoedd bywyd ein dysgwyr ieuengaf mwyaf difreintiedig drwy ymyrraeth gynt.

- Gweithio gyda phartneriaid i nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o fesur a gwella llesiant disgyblion, a chryfhau gwaith ysgolion a'u partneriaid i wella'r diogelwch, llesiant corfforol ac emosiynol a gwydnwch ein holl ddysgwyr.

- Sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal, y rhai sydd wedi'u haddysgu y tu allan i'r ysgol a'r rhai sydd wedi'u haddysgu mewn Unedau Atgyfeirio Disgyblion ledled Cymru yn cael gwell cymorth i lwyddo, drwy gryfhau partneriaethau ar draws awdurdodau ac ar draws sectorau er mwyn rhannu arferion gorau.

- Meithrin ein hymrwymiad i degwch mewn addysg drwy sicrhau fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer nodi a chefnogi dysgwyr drwy Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi'i lunio i gryfhau darpariaeth ledled Cymru ar gyfer yr holl ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

- Rhoi'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol a Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru ar waith.

DRAFT

**Cwricwlwm ac Asesu**

- Defnyddio ymchwil addysgeg a gydnabyddir drwy'r byd a chydweithio'n effeithiol drwy'r system gyfan i lunio a datblygu cwricwlwm o safon byd i Gymru fel y gall wella'r ffordd o feddwl yn feirniadol ar lefel uchel a sgiliau codio pob dysgwr, meithrin eu creadigrwydd a'u cyfranogiad gan sicrhau hefyd eu bod i gyd yn parhau i wneud cynnydd da gyda llythrennedd, rhifedd a lefelau o gymhwysedd digidol yn ystod y cyfnod hwnnw o ddiwygio'r cwricwlwm.

- Llunio trefniadau asesu newydd, gyda mwy o bwyslais ar asesu ffurfiannol, gan gynnwys datblygu asesiadau cyfrifiadurol wedi'u personoli i ddarparu gwell galluoedd diagnostig ar gyfer ein holl ddysgwyr. Gofalwch fod trefniadau atebolrwydd yn addas i'w diben ac wedi'u llunio i wella cyfleoedd ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai mwyaf galluog.

- Sicrhau bod y trefniadau asesu a chwricwlwm diwygiedig yn cael eu hategu gan ddeddfwriaeth a fydd yn ailddatgan yr egwyddor o gwricwlwm cenedlaethol i Gymru a ddiffinnir drwy gyfres gyffredinol o ddyletswyddau ac a fydd yn darparu rhyddid i'n hymarferwyr ddefnyddio eu proffesiynoldeb a'u creadigrwydd i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

- Datblygu dull gweddnewidiol o addysgu, dysgu ac asesu'r Gymraeg gyda'r nod o sicrhau y bydd pob dysgwr yn y dyfodol yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol.

- Cefnogi pob lleoliad i ddatblygu eu partneriaethau â busnes, y sector gwirfoddol, elusennau, y celfyddydau a Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys datblygu cronfa waddol genedlaethol ar gyfer cerddoriaeth i helpu i gynnig cyfleoedd i bob dysgwr ymgysylltu â phrofiadau newydd, i gael eu hysbrydoli ac i ehangu eu gorwelion.

**Addysgeg**

- Cryfhau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon drwy sefydlu meini prawf achredu newydd a fydd yn disgwyl i'r SAU a'r partneriaethau ysgol i gydweithio i gynllunio a chynnal rhaglenni perthnasol o ansawdd uchel sy'n gwbl ymarferol ac yn herio'n ddeallusol a fydd yn denu a chadw mwy o ymgeiswyr o ansawdd uchel. Denu a chadw mwy o raddedigion hŷn o'r radd flaenaf i'r byd addysgu drwy ailwampio'r Rhaglen Athrawon Graddedig.

- Datblygu, ymgynghori a lansio safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac eraill yn y gweithlu addysg, a fydd yn canolbwyntio ar helpu i feithrin eu harbenigedd yn elfennau hollbwysig addysgu llwyddiannus er mwyn darparu ein cwricwlwm newydd - addysgeg, arweinyddiaeth, cydweithio, arloesi a dysgu proffesiynol gydol oes. Datblygu safonau i staff cymorth fel y gallant ymrwymo i ddysgu proffesiynol a hwyluso llwybrau mwy clir i rôl Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch.

- Mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, datblygu dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol sy'n meithrin gallu ac yn dechrau mewn addysg gychwynnol

DRAFT

athrawon ac sy'n cael ei gynnwys yn y system hunanwella i ysgolion ac mewn ymchwil seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pob athro ac ymarferydd.

- Dylai'r gweithgareddau adlewyrchu ein nodau i sicrhau bod ein gweithlu'n fwy parod i:
    - gyflawni pedwar diben ein cwricwlwm newydd i'r ystod lawn o alluoedd yn ein hystafelloedd dosbarth/ lleoliadau a gwella ansawdd Asesu ar gyfer Dysgu.
    - addysgu Cymraeg fel iaith fyw a gweithio'n effeithiol mewn lleoliadau Cymraeg a dwyieithog.
    - defnyddio'r technolegau a'r sgiliau perthnasol i drawsnewid cymhwysedd digidol ein dysgwyr.
    - gwella ymarfer ystafell ddosbarth yn y pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) cyn y Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd.
    - rhannu arferion gorau addysgu cyfnod sylfaen ymhob lleoliad.
    - gwella ansawdd addysgu er mwyn ymestyn ein dysgwyr mwy galluog ymhob lleoliad, gan gynnwys y rhai yn y chweched dosbarth, i gyflawni eu rolau priodol i sicrhau diogelwch mwyaf effeithiol a llesiant gwell pob dysgwr a gwell pontio ar gyfer dysgwyr ym mhob pwynt allweddol.

- Sefydlu dull cenedlaethol o leihau meintiau dosbarthiadau babanod, gan gynnwys darparu cyllid cyfalaf a refeniw ychwanegol, er mwyn gwella addysgu a dysgu'r dysgwyr sy'n cael eu heffeithio'n fwyaf anffafriol gan amddifadedd a pharhau i ddatblygu egwyddorion ac arferion gorau'r Cyfnod Sylfaen.

- Sefydlu systemau cynllunio'r gweithlu i helpu i ddatrys heriau hirdymor nifer yr athrawon sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg, gan gynnwys ar gyfer yr ystod lawn o rolau Anghenion Dysgu Ychwanegol a sicrhau cymorth mwy effeithiol ar gyfer cyflogi a datblygu athrawon cyflenwi.

- Parhau â'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn darparu amgylcheddau dysgu sy'n diwallu anghenion pob dysgwr a sicrhau bod addysg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sy'n ei dewis.

**Arweinyddiaeth**

- Sefydlu a datblygu Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysg a fydd yn gwella sgiliau arwain y rhai mewn lleoliadau ysgol ac allanol, sicrhau cronfa o arweinwyr medrus iawn ar gyfer y dyfodol i'r system gyfan yn y Gymraeg a'r Saesneg a sicrhau ein bod yn gallu meithrin gallu ein gweithlu i gyflawni ein huchelgeisiau amrywiol ar gyfer dysgwyr.

- Datblygu safonau arweinyddiaeth broffesiynol newydd sy'n cyd-fynd â'r safonau addysgu proffesiynol newydd, a gwreiddio rôl penaethiaid fel arweinwyr newid yn ein system addysg.

- Er mwyn darparu cymorth mwy effeithiol ar gyfer arweinwyr ysgol, datblygu opsiynau ar gyfer cyrff llywodraethu mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar sgiliau ac ehangu'r defnydd o reolwyr busnes medrus iawn.

**System hunanwella i ysgolion**

- Datblygu dull cenedlaethol ar gyfer y system hunanwella o fewn cyd-destun y trefniadau atebolrwydd diwygiedig, er mwyn sicrhau bod yr holl ysgolion yn tyfu fel sefydliadau dysgu, gan rannu eu harbenigedd er budd pob dysgwr. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi cynghreiriau cydweithio mewn a rhwng ysgolion a chynyddu nifer y ffederasiynau.

- Meithrin gwybodaeth, arbenigedd a sail ymchwil y system hunanwella drwy gefnogi cydweithredu rhwng ysgolion, consortia rhanbarthol a Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnal ffocws diflino ar addysgu a dysgu er mwyn hogi sgiliau cynghorwyr her ac arweinwyr ysgol wrth iddynt ddarparu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

- Gwella deilliannau dysgwyr chweched dosbarth, dysgwyr mewn Unedau Atgyfeirio Disgyblion a'r rhai sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliadau ysgol drwy hyrwyddo datblygiad y model hunanwella i leoliadau chweched dosbarth, Unedau Atgyfeirio Disgyblion a'r rhai sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliadau ysgol.

- Datblygu ymagwedd genedlaethol at ysgolion bach a gwledig o fewn y system hunanwella.

DRAFT